

**GORCHYMYN CYNGOR BRO MORGANNWG
(GWAHARDD A CHYFYNGU AR FANNAU AROS A
LLWYTHO A MANNAU PARCIO)
(GORFODI SIFIL) (DIWYGIO) (RHIF 8) 2021**

1. Hysbysir drwy hyn bod Cyngor Bro Morgannwg, wrth arfer ei bwerau dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, a Deddf Rheoli Traffig 2004 a'r holl bwerau galluogi eraill, yn cynnig gwneud Gorchymyn er mwyn gosod a diwygio cyfyngiadau parcio amrywiol ar y ffyrdd a restrir fel y cyfeirir atynt yn yr Atodlen isod.
2. Mae modd gweld manylion llawn y cynigion ar wefan y Cyngor yn www.bromorgannwg.gov.uk neu yn Nerbynfeydd y Swyddfeydd Dinesig a Depo'r Alpau, Gwenfô ac mae'n rhaid cyflwyno unrhyw wrthwynebiadau a allai fod gennych i'r cynnig hwn i Gyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai (Cyf. IF939) yn ysgrifenedig neu drwy e-bost i C1V@valeofglamorgan.gov.uk erbyn **3 Medi 2021** ac mae'n rhaid cynnwys eich rhesymau dros wrthwynebu.
3. Rhoddir gwybod i unrhyw un sy'n gwrthwynebu'r Gorchymyn arfaethedig, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) 1985, fod rhwymedigaeth gyfreithiol ar y Cyngor hwn i alluogi'r cyhoedd i archwilio unrhyw sylwadau a ddaw i law am y Gorchymyn arfaethedig.

Mae'r Gorchymyn Rheoleiddio Traffig canlynol i'w ddiwygio fel a ganlyn:

Gorchymyn Gwahardd a Chyfyngu ar Fannau Aros a Llwytho a Mannau Parcio (Gorfodi Sifil) 2013

ATODLEN

Mewnosoder yn Atodlenni Mapiâu AS63, AT63, AU63, AQ64, AR64 and AS64

Gorchymyn Gwahardd Aros ar Unrhyw Adeg Arfaethedig

Lavernock Road, Penarth

Ar ochr y de-ddwyrain, o'r gyffordd â St Mary's Well Bay Road tua'r de-orllewin am oddeutu 50 metr.

Ar ochr y de-ddwyrain, o'r gyffordd â St Mary's Well Bay Road tua'r gogledd-ddwyrain i'r gyffordd â Fort Road am oddeutu 235 metr.

Ar ochr y de-ddwyrain, o'r gyffordd â Fort Road tua'r gogledd-ddwyrain i'r gyffordd ag Upper Cosmeston Farm am oddeutu 378 metr.

Ar ochr y dwyrain, o'r gyffordd ag Upper Cosmeston Farm tua'r gogledd i'r gyffordd â Cosmeston Drive am oddeutu 179 metr.

Ar ochr y dwyrain, o'r gyffordd â Cosmeston Drive tua'r gogledd i'r gyffordd â Thafarn Schooner Inn am oddeutu 219 metr.

Ar yr ochr ddwyreiniol, o'r gyffordd â Thafarn Schooner Inn, tua'r gogledd, yn cyd-redeg â'r gwaharddiad aros ar unrhyw adeg presennol ar Brockhill Rise, am oddeutu 239 metr.

Ar ochr y gogledd-orllewin, o bwynt 50 metr i'r de-orllewin o'r gyffordd â St Mary's Well Bay Road, tua'r gogledd yn gyffredinol, i'r gyffordd â Pharc Gwledig Llynnoedd Cosmeston, am oddeutu 796 metr.

Ar ochr y gorllewin, o'r gyffordd â Pharc Gwledig Llynnoedd Cosmeston, tua'r gogledd am oddeutu 442 metr.

St Mary's Well Bay Road, Penarth

Ar ochr y gorllewin, o'r gyffordd â Lavernock Road, tua'r de am oddeutu 10 metr.

Ar ochr y dwyrain, o'r gyffordd â Lavernock Road, tua'r de am oddeutu 30 metr.

Fort Road, Penarth

Ar ddwy ochr y gyffordd â Lavernock Road, tua'r de-orllewin am oddeutu 10 metr

Upper Cosmeston Farm, Penarth

Ar ddwy ochr y gyffordd â Lavernock Road, tua'r dwyrain am oddeutu 10 metr.

Cosmeston Drive, Penarth

Ar ddwy ochr y gyffordd â Lavernock Road, tua'r dwyrain am oddeutu 10 metr.

Parc Gwledig Cosmeston

Ar ddwy ochr y ffordd fynediad ddienw, o'r gyffordd â Lavernock Road, tua'r gorllewin am oddeutu 39 metr.

O gyffordd y maes parcio mewnol cychwynnol ar y ffordd fynediad ddienw, am oddeutu 10 metr ar bob cangen o'r gyffordd

NI fydd y cyfyngiadau'n berthnasol pan fo'r marciau wedi'u hepgor wrth fynediad gatiau, croesfan i gerbydau neu gerddwyr.

Dyddiedig 13 Awst 2021.
Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai
Cyngor Bro Morgannwg, Yr Alpau, Gwenfô. CF5 6AA.